

Lynne Neagle AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gwir Anrh Elin Jones AS
Llywydd

Llywydd@senedd.cymru

22 Gorffennaf 2024

Annwyl Elin,

Yn ystod fy sesiwn Cwestiynau Llafar ddydd Mercher 10 Gorffennaf, roedd camgymeriad ffeithiol yn fy ymateb i gwestiwn atodol gan Julie Morgan AS.

Wrth ddisgrifio cyrhaeddiad daearyddol adran iau Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, dyfynnais ffigurau ar gyfer darpariaeth ddrama yn hytrach na darpariaeth gerddoriaeth. Heb imi sylweddoli, roedd y ddwy set hon o ffigurau wedi'u cymysgu yn fy nogfen frifio.

Fel y mae'r [cofnod o drafodion](#) yn ei ddweud, dywedais, 'mae'r mwyafrif helaeth—bron 80 y cant—yn byw yng Nghaerdydd a'r cyffiniau yn ne-ddwyrain Cymru. Er enghraifft, nid oes unrhyw fyfyrwr o ogledd Cymru a Cheredigion'. Mewn gwirionedd, mae'r ffigurau a ddarparwyd i mi gan y Coleg yn dangos, ar gyfer darpariaeth gerddoriaeth, bod 72% o Gaerdydd a'r De-ddwyrain, bod un o Ogledd Cymru a phump o Orllewin Cymru. Nid yw ffigurau'r Coleg wedi'u rhannu yn ôl awdurdod lleol, felly nid oes ffigur penodol ar gael i Geredigion.

Mae fy swyddfa eisoes yn y broses o gysylltu ag Ysgrifenyddiaeth y Siambr i ofyn iddynt gywiro'r cofnod o'r trafodion cyn gynted â phosibl. Hoffwn ymddiheuro yn ddifffuant i chi ac i Julie Morgan AS, ac rwy'n rhoi copi o'r llythyr hwn iddi hithau.

Yn gywir

Lynne Neagle AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.